VALE of GLAMORGAN

BRO MORGANNWG

# Polisi Cydraddoldeb
# Cyngor Bro Morgannwg

**Cewch y ddogfen hon mewn fformatiau eraill.**
**Fe'i cewch hefyd mewn ffont fwy ac wedi'i hargraffu ar bapur o wahanol liwiau.**

**Manylion cyswllt:**


**nhinton@valeofglamorgan.gov.uk; neu**

**ljbrown@valeofglamorgan.gov.uk; neu**

**01446 700111.**

**Polisi Cydraddoldeb**
**Cyngor Bro Morgannwg**

## Cynnwys


Pwrpas y polisi hwn 1
Yr hyn a ddywed y gyfraith 1
Nodweddion gwarchodedig 2
Grwpiau gwarchodedig 4
Triniaeth deg 4
Cynlluniau sy'n cefnogi'r polisi hwn 5
Beth yw ystyr cydraddoldeb i ni? 6
Ein nodau cydraddoldeb yn gyffredinol 6
Anffafriaeth mewn sefydliadau 7
Ein nodau yn y gweithle 7
Ein nodau ar gyfer pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fro 7
Sut datblygwyd y polisi hwn? 9
Pwy ddylai ddilyn y polisi hwn 9
Beth y mae'n rhaid i ni ei wneud? 10
Cyfrifoldebau Cyffredinol 10
Cyfrifoldebau mewn Meysydd Allweddol 12
Recriwtio a chadw staff 12
Hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth 13
Ymddwyn 13
Gwybodaeth bersonol a sensitif 14
Hybu cydraddoldeb 14
Cynnwys pobl 14

**Polisi Cydraddoldeb**
**Cyngor Bro Morgannwg**


Cyd-dynnu yn y gwaith a'r gymuned 15

Rhoi gwybod am ymddygiad diangen (anffafrio, aflonyddu neu erlid) 15

Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd 15

Tor-polisi 15

Ymateb 16

Ymateb oddi wrth staff 16

Ymateb oddi wrth y cyhoedd neu sefydliadau eraill 17

Ymateb oddi wrth rai sy'n ymgeisio am swyddi 17

Ymateb oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol 18

Hyrwyddo'r polisi 18

Cydraddoldeb ar waith 18

Cydraddoldeb ar ein gwefan 19

Polisïau 20

Monitro ac Adolygu 20

Adrodd yn ôl 21

Adolygu'r polisi hwn 21

Rhestr Termau 23

# Polisi Cydraddoldeb
# Cyngor Bro Morgannwg

## Diben y polisi hwn

Rydym wedi llunio'r polisi hwn er mwyn dangos:

- ein bod yn meddwl bod cydraddoldeb yn bwysig;
- sut y byddwn yn gweithio ar gyfer cydraddoldeb;
- sut yr ydym am i bobl ymddwyn.

## Yr hyn a ddywed y gyfraith

Mae deddfwriaeth ar gael i'n helpu yn ein gwaith:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus;
- dyletswyddau penodol ar gyfer Cymru;
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r ddeddfwriaeth a'r dyletswyddau hyn yn gwarchod pob un ohonom. Mae'n bosibl bod deddfwriaeth arall sy'n ein gwarchod mewn modd tebyg. Mae dyletswydd arnom i feddwl am bobl a chanddynt nodweddion gwarchodedig (gweler isod). Mae dyletswydd arnom hefyd i gynnal perthynas dda rhwng pobl ym mhob rhan o'n cymuned.

Mae Deddf Cydraddoldeb yn rhestru'r nodweddion gwarchodedig. Rydym yn eu hegluro isod.

**Nodweddion gwarchodedig**

| **Nodwedd warchodedig** | **Ystyr** |
|---|---|
| **Oedran** | Pobl o oedrannau gwahanol. Mae'n cynnwys rhai ifanc a rhai hŷn. |
| **Anabledd** | Pobl a nam corfforol neu feddyliol arnynt sy'n cael effaith fawr a hir dymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol bob dydd.<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys anableddau y gellir eu gweld, am fod yr unigolyn yn defnyddio cymhorthion fel ci tywys neu gadair olwyn, er enghraifft.<br><br>Mae hefyd yn cynnwys anableddau nad oes modd eu gweld fel y clefyd melys, dyslecsia, awtistiaeth, syndrom Asperger, iechyd meddwl bregus ac anawsterau dysgu. |
| **Ailgyfeirio rhyw** | Pobl sy'n newid yr olwg sydd arnynt.<br><br>Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sydd am gychwyn, newydd gychwyn, wrthi'n dilyn neu wedi cwblhau proses o newid rhyw.<br><br>Nid oes rhaid i unigolyn gael triniaeth feddygol i fod yn gymwys i'w amddiffyn gan y gyfraith. Bydd y gyfraith yn amddiffyn menyw sy'n penderfynu byw fel dyn heb iddi gael triniaeth feddygol, er enghraifft. |

| | |
|---|---|
| | Mae'n cynnwys y syniad sydd gan unigolyn o'i ryw a'i ffordd o'i gyflwyno ei hun (hunaniaeth rywiol). Gallai fod yn gymysgedd o'r gwryw a'r fenyw neu'r tu allan i'r categorïau hynny. |
| **Statws priodasol neu bartneriaeth sifil** | Pobl sydd wedi priodi neu'n rhan o bartneriaeth sifil. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Menywod sy'n disgwyl plentyn, sy'n cymryd cyfnod i ffwrdd o'r gwaith ar ôl rhoi genedigaeth neu sy'n bwydo ar y fron. Bydd y rhain yn cael eu hamddiffyn am 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth p'un ai a gymerant seibiant mamolaeth neu beidio. |
| **Hil** | Pobl o hil, cenedl, lliw, diwylliant neu dras ethnig wahanol. |
| **Crefydd neu ddiffyg crefydd** | Pobl sy'n arddel crefydd neu gredo neu sy'n anghredinwyr. Mae'r term 'crefydd' yn cynnwys credo grefyddol neu athronyddol. |
| **Rhyw** | Menywod a dynion. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Pobl sy'n cael eu denu at:<br>• bobl o'r un rhyw (lesbiaid neu hoywon);<br>• y rhyw arall (gwahanrywiol);<br>• y ddau ryw (deurywiol).<br>Mae rhai pobl na fyddant yn uniaethu'n llwyr ag un rhyw benodol a rhai sy'n teimlo eu bod o ryw gymysg. Bydd rhai hefyd yn cael eu denu at bobl ni |

| | |
|---|---|
| | waeth beth fo eu rhyw neu'u cyfeiriadedd rhywiol (trawsrywiol). |
| Yn ogystal â'r nodweddion uchod, bydd y polisi hwn yn darparu ar gyfer dau faes arall. | |
| **Golwg** | Mae hyn yn ymwneud â ffordd rhywun o'i gyflwyno ei hun. Er enghraifft, pobl sy'n gwisgo dillad gothig neu gyflau. |
| **Y Gymraeg** | Pobl sy'n cyfathrebu yn y Gymraeg. |

Nid yw'r ddwy nodwedd olaf hon yn nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddwn yn eu cymryd i ystyriaeth am resymau eraill.

Bu achosion o bobl yn cael eu trin yn wael oherwydd yr **olwg** sydd arnynt. Bu pobl mewn dillad gothig yn darged troseddwyr casineb, er enghraifft, a siopwyr wedi rhwystro pobl ifanc â chyflau rhag mynd i mewn i'w siopau. Rydym am ddarparu'r un lefel o wasanaeth i bawb ni waeth pa olwg sydd arno.

Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Grwpiau Gwarchodedig

Pobl sy'n cael eu gwarchod o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb yw 'grwpiau gwarchodedig'. Bydd pobl mewn grŵp o'r fath yn rhannu un neu ragor o nodweddion gwarchodedig. Rydym i gyd yn perthyn i fwy nag un o'r grwpiau hyn.'

**Triniaeth deg**

Yn ein gwaith, y mae'n rhaid i ni drin pawb yn deg a cheisio cwrdd â'u hanghenion.

Mae hyn yn golygu peidio â thrin pobl â llai o barch oherwydd yr hyn ydynt neu'r olwg sydd arnynt. **Anffafrio** fyddai hynny.

Ni ddylem ddychryn, sarhau na bychanu pobl. Ni ddylem chwaith fod yn gas nac yn annymunol wrthynt. **Aflonyddu** fyddai hynny.

Ni ddylem drin pobl yn wael am iddynt gwyno ynglŷn â chael eu trin yn annheg neu bobl yn aflonyddu arnynt. **Erlid** fyddai hynny.

Mae dyletswydd arnom hefyd i:

- drin pobl o wahanol grwpiau gwarchodedig yn deg;
- helpu pobl o wahanol grwpiau gwarchodedig i gyd-fynd â'i gilydd.

| |
|---|
| Cofiwch mai drwy helpu pobl mewn ffyrdd gwahanol i wneud eu gwaith neu ddefnyddio gwasanaethau y byddwn yn eu trin 'yn gyfartal' nid drwy eu trin yn union yr un fath â'i gilydd. |

## Cynlluniau sy'n cefnogi'r polisi hwn

Mae gennym Gynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Iaith.

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/strategic_equality_plan.aspx

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/welsh_language_scheme.aspx

Mae'r rhain yn dangos sut y byddwn yn gweithio er mwyn hybu cydraddoldeb.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn egluro ein gwaith ym maes cydraddoldeb a'n ffordd o'i gyflawni. Mae'n dangos ein prif flaenoriaethau. Byddwn yn eu galw'n 'amcanion cydraddoldeb'.

Er mwyn datblygu'r rhain, yr ydym wedi siarad â llawer o sefydliadau a gwneud ychydig o ymchwil. Bu hyn o gymorth i ni ddeall sut y dylid gwella'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau gwarchodedig.

Mae'r Cynllun Iaith yn debyg ond ei fod yn ymdrin â materion Cymraeg yn unig. Mae'n egluro'r gwaith y byddwn yn ei wneud er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a sut y bydd angen gweithredu er mwyn gwella hynny. Pan ddaw'r Safonau Cymraeg newydd i rym, rhoddwn gynllun gweithredu newydd ar waith. Bydd hwnnw'n disodli'r Cynllun Iaith.

Bydd pob gwasanaeth cyngor yn ein helpu i gyflawni ein prif flaenoriaethau. Mae gennym systemau ar gyfer monitro cynnydd.

## Beth y mae cydraddoldeb yn ei olygu i ni?

Mae cydraddoldeb yn ymwneud â chwrdd ag anghenion pobl er mwyn iddynt allu defnyddio gwasanaeth neu ddod i ben â swydd. Er mwyn darparu ar ei chyfer, bydd yn rhaid i ni weithiau newid ein ffordd o gynnig gwasanaeth neu gyflawni swydd.

Byddwn yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Yn ôl y model hwn, ni sy'n achosi anabledd oherwydd ein ffordd o drefnu pethau. Mae'n ystyried sut i symud y rhwystrau sy'n cyfyngu ar y dewis sydd gan bobl anabl mewn bywyd. Pan fydd hyn yn cael ei wneud, bydd yn bosibl i bobl anabl fyw'n annibynnol ac yn gydradd yn ein cymdeithas. Mae rhoi dewis i bobl a gallu iddynt reoli eu bywydau eu hunain.

# Polisi Cydraddoldeb
# Cyngor Bro Morgannwg

## Ein nodau cydraddoldeb yn gyffredinol

- Rydym am wneud ein gorau i symud y rhwystrau i swyddi, gwybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a chyfleusterau.

- Rydym am ddod o hyd a rhoi'r gorau i arferion pob dydd sy'n gwahaniaethu'n erbyn pobl (**anffafrio sefydliadol** – gweler isod).

- Rydym am godi ymwybyddiaeth o anghenion gwahanol grwpiau gwarchodedig.

- Rydym am herio tybiaethau annheg am bobl.

- Rydym am herio syniadau gorsyml am bobl (stereoteipiau).

- Rydym am herio barnau sydd wedi'u seilio ar ffeithiau anghyflawn neu deimladau afresymol (rhagfarnau).

- Rydym am hybu diwylliant sy'n cymell parchu a gwerthfawrogi pobl amrywiol a'r unigolyn.

## Anffafrio sefydliadol

Math o anffafrio sy'n digwydd mewn rhai sefydliadau yw hwn.  Mae'n digwydd pan fydd y dulliau o weithiau'n annheg.  Gallai rhagfarn fod yn gyfrifol am hynny.  Gallai hefyd godi am na fu neb yn ystyried anghenion y gwahanol grwpiau o bobl.

## Ein nodau ar gyfer y gweithle

- Rydym am drin pobl yn deg ac â pharch.

- Rydym am helpu pobl i wneud gwaith da.

- Nid ydym am i unrhyw un ddioddef dan ddwylo rhai sy'n ymddwyn mewn ffordd ddiangen.

- Rydym am seilio ein penderfyniadau am bobl ar eu gallu .

Rydym am sicrhau y caiff pobl weithio i ni a defnyddio ein gwasanaethau beth bynnag a fo eu nodweddion gwarchodedig.

**Ein nodau ar gyfer pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fro**

- Rydym am i'r Fro fod yn lle dymunol i bobl fyw a gweithio ynddo.

- Rydym am iddi fod yn lle diogel, glân a deniadol.

- Rydym am i bobl allu ddod yn iachach, yn fwy cyffyrddus, yn hapusach ac yn fwy cyfoethog.

- Rydym am i bobl allu ddysgu, cael hyfforddiant a gwella eu sgiliau.

- Rydym am helpu i sicrhau bod eu cymuned yn lle da i fyw ynddo.

Er mwyn dod i ben â hyn, bwriadwn:

- gynnig gwasanaethau i bobl mewn ffordd deg gan ddangos parch;

- siarad â phobl er mwyn cael gwybod yr hyn sydd ei angen arnynt;

- helpu grwpiau cymunedol na ddarparwyd ar gyfer eu hanghenion gystal ag y gwnaethpwyd ar gyfer grwpiau eraill;

- helpu rhai llai ariannog a rhai a chanddynt anghenion penodol gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol;

- helpu pobl i fyw'n dda gyda'i gilydd yn eu cymunedau;

- ddweud wrth bobl ym mha le y gallant roi gwybod am unrhyw driniaeth anghyfreithlon, annheg neu ddiangen a gawsant;
- roi terfyn ar driniaeth annheg sy'n erbyn y gyfraith;
- ddweud ein bod yn hybu cydraddoldeb mewn polisïau eraill;
- roi gwybod i bobl am y polisi hwn.

Fel rhan o'n haddewid i hyrwyddo cydraddoldeb, rydym am sicrhau bod pobl yn:

- cael yr un cyfle mewn bywyd ni waeth beth fo eu cefndir;
- gwybod eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- gallu dibynnu arnom i weithredu'n deg;
- rhannu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ac yn teimlo eu bod yn perthyn;
- ystyried yr hyn sydd gan gymunedau'n gyffredin ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth;
- gallu ymwneud yn dda â phobl o gefndir gwahanol.

Byddwn yn cefnogi cydraddoldeb ac undod cymunedau ym mhob rhan o'r Fro.

## Sut datblygwyd y polisi hwn?

Datblygwyd y polisi hwn drwy siarad â:

- grŵp o staff o feysydd allweddol;
- chynghorwyr, staff, cynrychiolwyr undebau llafur;

- grwpiau o bobl sy'n gwybod am anghenion rhai a chanddynt nodweddion gwarchodedig.

Cyhoeddwyd y polisi drafft hefyd er mwyn i'r cyhoedd a staff gael gwneud sylwadau arno.

## Pwy ddylai ddilyn y polisi hwn?

Pobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor ddylai ddilyn y polisi hwn, sef:

- cynghorwyr;
- staff;
- gweithwyr asiantaeth;
- contractwyr;
- myfyrwyr ar brofiad gwaith neu leoliad;
- rheolwyr;
- gweithwyr contract;
- gweithwyr o dan hyfforddiant;
- gwirfoddolwyr;
- sefydliadau a rhai eraill sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan.

## Beth y mae'n rhaid i ni ei wneud?

Mae gennym i gyd ran i'w chwarae er mwyn helpu i roi'r polisi hwn ar waith. Y Cabinet a fydd yn arwain ac y mae dyletswydd arbennig ar Arweinydd y Cyngor i sicrhau cydraddoldeb.

Byddwn yn cynnig gwybodaeth am gydraddoldeb a hyfforddiant yn ei gylch. Bydd hyn yn helpu pobl i ddeall sut mae mynd ati i weithio mewn ffordd decach a mwy ystyriol.

## Polisi Cydraddoldeb
## Cyngor Bro Morgannwg

### Cyfrifoldebau Cyffredinol

| Cyfrifoldebau | Cynghorwyr | Rheolwr-gyfarwyddwr | Prif Swyddogion | Staff / gweithwyr eraill |
|---|---|---|---|---|
| Dangos parch i bobl eraill, eu trin yn deg ac ystyried eu hanghenion. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Peidio â bwlio nac erlid unrhyw un arall. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Peidio â defnyddio eich pŵer na'ch safle i rwystro pobl rhag cydymffurfio â'r polisi hwn. | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Rhoi cyfle teg i bobl weithio'n dda a manteisio ar wasanaethau. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Helpu pobl i gydweithio'n dda. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl am effaith gwasanaethau wrth i chi eu datblygu. Defnyddio ymchwil ac ymwneud â phobl eraill er mwyn gallu deall yr effaith. | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Meddwl am ffyrdd o atal neu leihau effaith andwyol polisïau a phenderfyniadau. | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Darparu adnoddau er mwyn cefnogi cydraddoldeb yn y gweithle a'r gymuned. | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Sicrhau ein bod yn cadw ein haddewidion ynglŷn â chydraddoldeb ym mhob rhan o'r Cyngor. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dangos arweiniad wrth drafod materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb. | ✓ | ✓ | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Helpu i ddod i ben â'r camau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Iaith. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sicrhau bod cynlluniau'n nodi'r math o waith y bwriadwn ei wneud o safbwynt cydraddoldeb. | | | ✓ | |
| Darparu gwybodaeth bob blwyddyn am eich gwaith o safbwynt cydraddoldeb a'r Gymraeg. Byddwn yn cynnwys honno yn ein hadroddiadau monitro blynyddol. | | | ✓ | ✓ |
| Bydd yn deg ac yn gefnogol i bobl yn y gweithle. | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Rhoi hyfforddiant a gwybodaeth am gyfraith cydraddoldeb ac anghenion grwpiau gwarchodedig. | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Gweithredu systemau sy'n monitro pwy'n union sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Dadansoddi hyn yn ôl nodweddion gwarchodedig er mwyn gweld a fo angen gwella unrhyw beth. | | ✓ | ✓ | |
| Cynnwys pobl wrth lunio polisïau a dod i benderfyniadau. Yn y modd yma, gallwn gymryd eu hanghenion i ystyriaeth. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Symud y rhwystrau i wasanaethau pan fo hynny'n bosibl er mwyn i bob math o bobl gael manteisio arnynt . | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Peidio â chellwair a gwneud sylwadau sarhaus am nodweddion gwarchodedig pobl na dangos lluniau sy'n amharchu'r nodweddion hynny. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Deall yr angen am gwrdd ag anghenion sy'n codi oherwydd nodweddion gwarchodedig pobl neu am eu bod am ddefnyddio'r iaith Gymraeg. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhoi gwybod i'r rheolwyr am unrhyw beth sydd yn eich barn chi'n anffafriol i bobl neu'n erbyn y gyfraith. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cydymffurfio â'r polisi hwn wrth ymyl ac yn y gweithle ac wrth fynychu digwyddiadau sy'n ymwneud â'r gwaith. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Cyfrifoldebau mewn Meysydd Allweddol**

**Recriwtio a chadw staff**

Ein nod yw:

- defnyddio prosesau recriwtio a dyrchafu sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn gwbl rydd o'r duedd i wahaniaethu'n erbyn pobl;
- sicrhau mai staff sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer peidio â gwahaniaethu sy'n cael asesu ymgeiswyr ar gyfer eu recriwtio neu'u dyrchafu;
- dod i benderfyniadau teg, diduedd a chyfreithiol wrth fynd ati i recriwtio, dewis a dyrchafu staff ac wrth gynnig hyfforddiant ac unrhyw fantais arall;
- mynd ati'n benodol i gymell, hyfforddi a recriwtio staff o grwpiau gwarchodedig penodol pan fo tystiolaeth wrthrychol y byddai hynny o gymorth i ni ddatblygu gweithlu mwy amrywiol;
- cynnwys cydraddoldeb mewn disgrifiadau swyddi ac ymhlith yr amcanion gwaith a'r galluoedd a nodir;
- trin ymgeiswyr am swyddi, staff a phawb arall sy'n gweithio i'r Cyngor yn deg gan ystyried yr anghenion sydd arnynt oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;

- creu gweithlu amrywiol a monitro'r canlyniadau ar gyfer recriwtio a dewis staff er mwyn sicrhau eich bod wedi llwyddo i wneud hynny.

**Hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth**

Ein nod yw:

- egluro'r polisi hwn i aelodau o staff yn y ffordd sydd orau i'w gwahanol dimau (yn ystod cyfarfodydd tîm, er enghraifft);

- egluro cyfraith cydraddoldeb i staff a'r hyn y dylent ei wneud i helpu pobl a chanddynt anghenion gwahanol;

- darparu hyfforddiant a chyngor ynglŷn â chydraddoldeb.

**Ymddwyn**

Ein nod yw:

- gweithredu yn ôl y gyfraith a'n polisïau ein hunain;

- rhwystro unrhyw gellwair, sylwadau neu ddelweddau niweidiol a allai fod yn sarhaus ac achosi annifyrrwch yn y gwaith;

- rhwystro pob ymddygiad annheg neu ddiangen sy'n erbyn y gyfraith (anffafrio, aflonyddu neu erlid);

- cefnogi staff sy'n dioddef dan ddwylo rhai sy'n ymddwyn mewn ffordd ddiangen a chymryd camau priodol i'w rhwystro.

**Gwybodaeth bersonol a sensitif**

Mae'n rhaid i ni drin gwybodaeth bersonol pobl yn gyfrinachol ac yn unol â'r gyfraith.

## Hyrwyddo cydraddoldeb

Ein nod yw:

- helpu pobl o grwpiau gwarchodedig i fachu ar gyfleoedd addas;

- egluro'r polisi hwn i gontractwyr a phartneriaid a hyrwyddo cydraddoldeb pan fydd y Cyngor yn cael neu'n prynu nwyddau neu wasanaethau oddi wrth sefydliadau eraill;

- disgwyl i sefydliadau sy'n masnachu â ni ddilyn ein polisïau;

- cynnwys camau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Iaith a fydd yn ein helpu i wella ein gwasanaethau a'n bywyd yn y gwaith;

- egluro'r polisi hwn i bobl, gan gynnwys grwpiau a fydd yn teimlo ei effaith.

## Cynnwys pobl

Ein nod yw:

- siarad â llawer o wahanol bobl pan fyddwn yn newid gwasanaethau, polisïau neu benderfyniadau neu'n cyflwyno rhai newydd;

- siarad â grwpiau sy'n gwybod am anghenion grwpiau gwarchodedig er mwyn i wasanaethau gael cwrdd â'r anghenion hynny;

- dewis lleoliadau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus sy'n hawdd eu cyrraedd a'u defnyddio.

## Polisi Cydraddoldeb
## Cyngor Bro Morgannwg

### Cyd-dynnu yn y gwaith a'r gymuned

Ein nod yw helpu pobl i gyd-dynnu'n dda a pharchu ei gilydd yn y gymuned a'r gwaith.

### Rhoi gwybod am ymddygiad diangen (anffafrio, aflonyddu neu erlid)

Ein nod yw rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad diangen a welwn i sefydliadau neu grwpiau a ddylai gael gwybod amdano.

### Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd

Ein nod yw:

- ysgrifennu gwybodaeth mewn iaith eglur sy'n rhydd o jargon.
- defnyddio delweddau sy'n dangos yr amrywiaeth o bobl sy'n byw yn ein cymuned.
- darparu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'r cyfarwyddyd yn y Cynllun Iaith.

### Tor-polisi

Bydd yr arferion hyn yn ein helpu i:

- ddenu a chadw staff a datblygu eu doniau;
- ddarparu gwasanaethau teg sy'n cwrdd ag anghenion pobl.

Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio i'r Cyngor gydymffurfio â'r polisi hwn.

Os na fydd aelod o staff yn cydymffurfio â'r polisi hwn, bydd gennym hawl ei ddisgyblu.   Cawn drafod achosion difrifol o dor-polisi fel

camymddwyn difrifol a chymryd pob math o gamau'n erbyn drwgweithredwyr gan gynnwys eu diswyddo.

Mae'n bwysig i unigolion ddeall hefyd y gallem ddwyn achos cyfreithiol yn eu herbyn petaent yn methu â chydymffurfio â'r polisi hwn a chyfraith cydraddoldeb.

## Ymateb

### Ymateb oddi wrth staff

Caiff staff roi gwybod i ni am yr hyn sy'n gweithio'n dda iddynt hwy a'u cwsmeriaid drwy ei grybwyll wrth eu rheolwr llinell neu'r rheolwr sy'n gyfrifol am y gwasanaeth. O gael gwybod bod arfer yn gweithio'n dda, gallwn fynd ati i'w ddiogelu a'i hyrwyddo. O gael gwybod bod arfer yn methu, gallwn fynd ati i'w newid.

Mae trefn y caiff staff ei dilyn er mwyn rhoi gwybod am ymddygiad diangen (anffafrio, aflonyddu neu erlid). Cewch fanylion ar y Fewnrwyd a chopi caled o'r ddogfen drwy gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol.

Byddwn yn ymdrin ag unrhyw gwynion ynglŷn ag erlid yn brydlon ac mewn ffordd gyfrinachol.

Bydd unrhyw rai sy'n trin pobl eraill yn annheg am eu bod wedi lleisio cwyn (erlid) yn cael eu disgyblu. Gallai hynny hefyd arwain at eu diswyddo.

**Ymateb oddi wrth y cyhoedd a sefydliadau eraill**

Er i ni ymrwymo i warchod pobl a'u trin yn deg, weithiau, er gwaethaf pob ymdrech, bydd rhywbeth yn mynd o'i le. Pan ddigwydd hynny, rydym am gael gwybod amdani. Hoffem gael gwybod hefyd pan fydd pethau'n arbennig o dda.

Wrth gael eich ymateb, cawn ddysgu beth yn union sy'n llwyddo a beth sydd angen ei wella, efallai.

Mae gennym drefn gwyno gorfforaethol. Cewch weld honno ar ein gwefan ac y mae copïau i'w cael yn y ganolfan gyswllt.

**Ymateb oddi wrth ymgeiswyr am swyddi**

Caiff ymgeiswyr am swyddi ddefnyddio'r drefn gwyno gorfforaethol i roi gwybod i ni am unrhyw rai sydd yn eu barn hwy wedi'u hanffafrio neu aflonyddu arnynt yn ystod y broses.

Cewch ymateb drwy ddefnyddio'r manylion canlynol:

| | |
|---|---|
| neges e-bost | Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU |
| neges destun | anfonwch eich neges i 60066 |
| ffôn | Canolfan Gyswllt y Cyngor - 01446 700111 |
| gwefan | llenwch ffurflen ar-lein drwy fynd i www.valeofglamorgan.gov.uk neu www.bromorgannwg.gov.uk |
| neges e-bost | nhinton@valeofglamorgan.gov.uk neu ljbrown@valeofglamorgan.gov.uk |

**Ymateb i'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae gan Gyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ei threfn ei hun ar gyfer cwyno a chanmol. Cewch gopi o'r drefn honno drwy ffonio 01446 704800.

## Hyrwyddo'r polisi

Mae'n bwysig i bobl gael gwybod am y polisi hwn a byddwn yn defnyddio sawl cyfrwng er mwyn ei egluro:

- gwefan;
- bwletinau e-bost;
- pecynnau sefydlu;
- cyflwyniadau;
- hysbysfyrddau staff;
- cyfarwyddyd craidd;
- contractau cyflogi;
- cylchlythyrau a llythyrau;
- adroddiadau blynyddol.
- mewnrwyd;
- pecynnau ymgeisio;
- cyfarfodydd â grwpiau;
- cyfarfodydd timau;
- systemau 'rhaeadru';
- hyfforddiant;
- llawlyfrau;
- llythyrau newyddion;

Gallwn ddarparu gwybodaeth mewn fformatiau eraill – er enghraifft ffont fwy a fformat hawdd ei ddarllen.

## Cydraddoldeb ar waith

Cewch enghreifftiau o’r gwaith y byddwn yn ei wneud yn ein hadroddiad blynyddol. Dewch o hyd i hwnnw ar ein gwefan ar y tudalennau cydraddoldeb.

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/Annual-Equality-Monitoring-Report.aspx

## Cydraddoldeb ar ein gwefan

Cewch gyfarwyddyd ynglŷn â phob math o faterion sy’n ymwneud â chydraddoldeb ar ein gwefan.

http://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/Directorates/Resources/Performance-and-Development/Equalities/Equalities-Policies-and-Guidance.aspx

Mae hyn yn cynnwys:

- Canllawiau hygyrchedd ar gyfer rheolwyr adeiladau;
- Ymgynghori â phobl anabl;
- Rhestr wirio ar gyfer sicrhau hygyrchedd i’r anabl;
- Llawlyfr Cydraddoldeb;
- Asesiadau effaith cydraddoldeb;
- Canllawiau ar gyfer cyfarfodydd agored;
- Rhôl pwyllgorau trosolwg a chraffu mewn asesu perfformiad y ddarpariaeth ar gyfer cydraddoldeb *.

Yn ogystal â hyn, y mae gennym gyfarwyddyd yn arbennig i ysgolion:

- Cyfarwyddyd ynglŷn â Deddf Cydraddoldeb a dyletswyddau penodol llywodraethwr ysgolion;
- Cyfarwyddyd ynglŷn â dyletswyddau'r sector cyhoeddus yng Nghymru o safbwynt cydraddoldeb - addysg ac ysgolion*;
- Risgiau cyffredin mewn addysg sy'n ymwneud â chydraddoldeb*;
- Materion addysgol sy'n ymwneud â chydraddoldeb*;
- Templed ar gyfer yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol i ysgolion *.

* Cyhoeddiad a luniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Polisïau**

Mae'r polisïau canlynol yn barod i'w gweithredu:

- Seibiant Gyrfa;
- Gofalwr;
- Aflonyddu a Bwlio;
- Clefydau HIV ac Aids;
- Rhannau swydd;
- Gwyliau/Tâl Mamolaeth a Mabwysiadu ;
- Gwyliau Rhieni;
- Polisi, Strategaeth a Chanllawiau ar gyfer Prynu;

- Côd Ymddwyn Aelodau Etholedig.

## Monitro ac Adolygu

We aim to develop monitoring systems to make sure this policy is working successfully.

Ein nod yw datblygu systemau a fydd yn cynhyrchu gwybodaeth am gyflogi a'r defnydd (ynteu diffyg defnydd) o'n gwasanaethau gan bob grŵp gwarchodedig. Byddwn yn cynnwys y wybodaeth hon yn ein hadroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Cewch weld yr adroddiadau hyn y tudalennau cydraddoldeb ar ein gwefan.

Bydd hyn o gymorth i ni weld ein cynnydd o safbwynt sicrhau cydraddoldeb a chydymffurfio â'r polisi hwn. Byddwn yn llunio cynllun gweithredu er mwyn ymdrin â'r meysydd sydd angen eu gwella.

## Adrodd yn ôl

Y Rheolwr-gyfarwyddwr sy'n gyfrifol am adrodd ar sut yn union y mae'r polisi hwn yn gweithio'n ymarferol. Gwneir hynny fel rhan o'r adroddiadau blynyddol ar fonitro cydraddoldeb a'r Gymraeg.

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/Annual-Equality-Monitoring-Report.aspx

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/welsh_language_scheme.aspx

## Adolygu'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn egluro sut y mae mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb. Cewch ragor o wybodaeth am hyn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Iaith ar ein gwefan:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/Annual-Equality-Monitoring-Report.aspx

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/welsh_language_scheme.aspx

Bob blwyddyn, byddwn yn adolygu ein cynnydd o safbwynt gweithredu'r polisi hwn. Gwnawn hynny wrth i ni adolygu cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Iaith.

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn ffurfiol ar ôl gosod amcanion cydraddoldeb newydd i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Hygyrchedd | Rhwyddineb mynd i mewn i adeilad neu ddefnyddio adeilad. |
| Gweithiwr asiantaeth | Rhywun sy'n gweithio i asiantaeth neu sefydliad. Bydd yr asiantaeth yn talu i'r unigolyn weithio i sefydliad arall (sef y Cyngor yn yr achos hwn). |
| Adroddiad blynyddol ar fonitro cydraddoldeb | Adroddiad sy'n dangos yr hyn a wnaethom yn ystod y flwyddyn i gyflawni ein dyletswyddau o dan gyfraith cydraddoldeb . |
| Cabinet | Grŵp o gynghorwyr sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau am gynlluniau, gwasanaethau a chyllidebau. |
| Galluoedd | Y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch er mwyn cyflawni swydd. |
| Gweithwyr dan gytundeb | Gweithwyr dan gytundeb i wneud gwaith penodol i'r Cyngor. Nid ni sy'n cyflogi'r gweithwyr hyn. |
| Trefn Gwyno Gorfforaethol | System ffurfiol y caiff pobl ei defnyddio i gwyno wrth y Cyngor. |
| Anffafrio | Trin rhywun yn waeth na phobl eraill oherwydd yr un yw ef neu oherwydd yr olwg sydd arno. |

# Polisi Cydraddoldeb
# Cyngor Bro Morgannwg

| | |
|---|---|
| Cydraddoldeb | Pawb yn cael yr un cyfle i wneud yr hyn y medrant ei wneud.  Weithiau bydd angen rhoi help ychwanegol i bobl er mwyn sicrhau bod ganddynt yr un cyfle. |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | Y ddeddf newydd y mae'r Llywodraeth yn ei gweithredu er mwyn sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn deg.  Daeth y ddeddf yn rhan o'r gyfraith ar ôl i'r Senedd gytuno ei bod yn gywir. |
| Amcanion cydraddoldeb | Targedau sy'n ein helpu i ganolbwyntio ar yr hyn a farnwn yw'r agweddau pwysicaf ar ein gwaith cydraddoldeb.  Byddwn yn dewis yr agweddau hyn drwy astudio gwaith ymchwil a siarad â phobl sy'n gweithio i ni ac yn byw yn ardal yr awdurdod lleol hwn. |
| Aflonyddu | Pan fydd rhywun yn erlid, sarhau neu fychanu rhywun oherwydd yr un yw ef neu'r olwg sydd arno. |
| Gwasanaethau Adnoddau Dynol | Adran yn y Cyngor sy'n ymdrin â staffio. |
| Nam | Cyfyngiad hirdymor ar gorff, meddwl neu synhwyrau pobl. |
| Anffafrio sefydliadol | Math o anffafrio a welwch weithiau mewn rhai sefydliadau.  Bydd yn digwydd pan fydd dulliau o weithio'n annheg.  Gallai hyn darddu o ragfarn.  Gallai ddigwydd hefyd am na feddyliodd unrhyw un |

| | |
|---|---|
| | am anghenion gwahanol grwpiau o bobl. |
| Jargon | Iaith y bydd grwpiau penodol o bobl yn ei defnyddio'n aml sy'n anodd ei deall. |
| Arweinydd | Y cynghorydd sy'n llywio'r Cabinet (gweler uchod). |
| Nodweddion gwarchodedig | Dyma'r nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Maent wedi'u rhestru a'u hegluro yn y polisi. |
| Grwpiau gwarchodedig | Pobl a warchodir o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Bydd pobl mewn grŵp gwarchodedig yn rhannu mwy nag un nodwedd warchodedig. |
| Promotion | This is getting a better level of job. |
| Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus | Deddf ar gyfer cyrff cyhoeddus yw hon sy'n ein gorfodi i gael hyd i ffyrdd o weithio sy'n dilyn egwyddorion cydraddoldeb. Wrth ddarparu gwasanaethau, cyflawni ein swyddi a gwario arian, er enghraifft. |
| Recriwtio | Cyflogi aelodau newydd o staff. |
| Cadw staff | Cadw'r staff sydd gennym eisoes. |
| Dewis staff | Dewis pobl ar gyfer swyddi. |
| Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol | Yr adran o'r Cyngor sy'n cefnogi teuluoedd ac yn cadw plant yn |

| | |
|---|---|
| | ddiogel. Bydd hefyd yn darparu gwasanaethau ar gyfer oedolion a phobl hŷn a chanddynt anableddau corfforol neu ddysgu. |
| Dyletswyddau penodol | Dyma'r dyletswyddau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru eu cyflawni er mwyn dangos eu bod yn dilyn egwyddorion cydraddoldeb. |
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Cynllun sy'n cyflwyno'r awdurdod lleol i bobl ac yn egluro'r gwaith y mae eisoes yn ei wneud dros gydraddoldeb a'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn sicrhau mwy o gydraddoldeb i staff a thrigolion yr ardal. |
| Erlid | Trin rhywun yn wael am iddo gwyno bod rhywun wedi'i drin yn annheg neu aflonyddu arno yn y gorffennol. |
| Deddf yr Iaith Gymraeg | Deddf sy'n dangos yr hyn y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ei wneud er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg. |
| Cynllun Iaith | Cynllun ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg. |
| Amcanion gwaith | Targedau sy'n ein helpu i wella agweddau gwahanol ar ein gwaith. |
| Gweithlu | Y staff a gyflogir. |